the index
y mynegai

# I blant a phobl ifanc gydag anableddau ac anghenion ychwanegol

**Ydy'ch plentyn yn 0-18 oed gydag anabledd neu angen ychwanegol?**

Cofrestrwch â'r Mynegai i gael y newyddion diweddaraf am wasanaethau, cymorth a gweithgareddau ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg



CARDIFF CAERDYDD

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Services

Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, sain neu iaith arall, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

## Sut i gofrestru â'r Mynegai?

Gallwch gofrestru â'r Mynegai os ydych yn:

- Rhiant/gofalwr i blentyn neu berson ifanc 0-18 oed ag anableddau neu anghenion ychwanegol
- Gweithio'n broffesiynol gyda phlant neu bobl ifanc 0-18 oed ag anableddau neu anghenion ychwanegol

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol neu ewch i'r wefan i gwblhau'r ffurflen gofrestru.

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd**
029 2035 1700
mynegaianabledd@caerdydd.gov.uk
www.ggd-caerdydd.info

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro**
01446 704736
mynegaianabledd@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk/ggd



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Services

Dewch o hyd i ni ar Facebook
neu dilynwch ni ar Twitter:
@CardiffFIS
@ValeFIS

Ref:
Argraffwyd Chwefror 2017







## Beth yw'r Mynegai?

Y Mynegai yw cofrestr wirfoddol Caerdydd a Bro Morgannwg o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol.

Nod y Mynegai yw cynnig gwybodaeth i:

- **Deuluoedd** – gan roi'r newyddion diweddaraf am wasanaethau, cymorth a gweithgareddau ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn bwynt cyswllt i deuluoedd drafod eu hanghenion.

- **Gweithwyr Proffesiynol** – yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol am anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol er mwyn cynllunio gwasanaethau a gwella mynediad i wasanaethau a chymorth.

- **Sefydliadau** – hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.



## Pwy all gofrestru â'r Mynegai?

Er mwyn bod ar y Mynegai, rhaid i blentyn neu berson ifanc fod yn:

- 0-18 oed
- Ag anabledd wedi'i ddiagnosio, sydd wrthi'n cael ei ddiagnosio neu sydd ag anghenion ychwanegol parhaus a gadarnhawyd.

## Pam cofrestru â'r Mynegai?

Ar ôl cofrestr â'r Mynegai, cewch:

- **Y Mynegai** - y cylchlythyr a anfonir bob 3 mis, sy'n llawn gwybodaeth am wasanaethau, cymorth a gweithgareddau yng Nghaerdydd a'r Fro.
- **eNewyddion Y Mynegai** - e-byst rheolaidd sy'n cynnig gwybodaeth am unrhyw weithgareddau a digwyddiadau a gynhelir rhwng rhifynnau'r cylchlythyr.

Bydd cofrestru hefyd yn golygu eich bod yn helpu i ddylanwadu ar y math o wasanaethau sy'n cael eu cynnig a'u datblygu











## Pa wybodaeth sydd ei hangen arnom?

- Gwybodaeth sylfaenol e.e. enw, dyddiad geni, manylion cyswllt, ysgol
- Manylion am unrhyw anableddau neu anghenion ychwanegol (os yn hysbys)
- Manylion am wasanaethau a chymorth rydych yn manteisio arnynt
- Manylion am unrhyw wybodaeth neu gymorth penodol sydd ei angen arnoch

## Addewid cyfrinachedd

- Cedwir gwybodaeth yn gyfrinachol ar system ddiogel ym mhob Gwasanaeth Gwybodaeth I Deuluoedd.
- Ni rennir manylion personol ag eraill oni roddir caniatâd neu onid yw hynny'n ofynnol dan y gyfraith.
- Caiff yr holl geisiadau am ddata neu wybodaeth eu gweinyddu a'u monitro'n agos gan y Swyddog/Gweinyddwr Mynegai Anabledd dan Ddeddf Diogelu Data 1998.
- Ni fydd gwybodaeth ystadegol ddienw ond ar gael i asiantaethau sy'n gyfrifol am gynllunio / darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol.



## Gwybodaeth Gyswllt Ddefnyddiol:

### Iechyd

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddiaeth Iechyd Plant Caerdydd a'r Fro | 029 2074 7662 |
| Canolfan Blant Llandochau | 029 2070 5580 |
| Canolfan Blant Dewi Sant | 029 2053 6789 |

### Gwasanaethau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Tîm Iechyd ac Anableddau Plant Caerdydd | 029 2053 6400 |
| Tîm Iechyd ac Anableddau Plant y Fro | 01446 704285 |

### Addysg

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Cynhwysiant Caerdydd | 029 2067 1479 |
| Gwasanaeth Cynhwysiant y Fro | 01446 709180 |
| SNAP Cymru | 029 2038 4868 |

### Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd | 029 2035 1700 |
| Llinell Gyngor Teuluoedd Yn Gyntaf Caerdydd | 0808 8000 038 |
| Tîm o Amgylch y Teulu (Anabledd) Caerdydd | 029 2022 8033 |
| | |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro | 01446 704704 |
| Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf y Fro | 0800 0327 322 |

